Cofnodion

Pwyllgor Rheoli Trosolwg a Chraffu

Dyddiad:	Dydd Gwener, 26 Ebrill 2024
Amser:	10.00 am
Bresennol:	Cynghorwyr P Hourahine (Cadeirydd), B Davies, G Horton, C Baker-Westhead, S Cocks and L James
Yn bresennol:	Samantha Schanzer (Cynghorydd Craffu), Sally Ann Jenkins (Cyfarwyddwr Strategol - Gwasanaethau Cymdeithasol), Finn Madell (Pennaeth Diogelu), Natalie Poyner (Pennaeth Gwasanaethau Plant) and Mary Ryan (Pennaeth Gwasanaethau Oedolion) Y Cynghorwyr S Marshall (Aelod Cabinet dros Wasanaethau Cymdeithasol – Gwasanaethau Plant) a J Hughes (Aelod Cabinet Gwasanaethau Cymdeithasol – Gwasanaethau Oedolion)
Ymddiheuriadau:	Cynghorwyr P Bright and M Evans

1 **Datganiadau o ddiddordeb**

Datganodd y Cynghorydd Davies fuddiant gan fod ei merch yn weithiwr cymdeithasol.

2 **Cofnodion y Cyfarfod Diwethaf**

Gofynnodd y Pwyllgor am ddiweddariad ynghylch adroddiad Ymgynghoriad y Cynllun Cydraddoldeb Strategol ers y cyfarfod blaenorol. Gofynnodd y Pwyllgor am newid "gallai" i "byddai" ar dudalen 4. Cafodd cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar **8 Mawrth 2024** eu **cadarnhau yn gofnod gwir**.

3 **Adroddiad Blynyddol ar Ddiogelu Corfforaethol 2023-24**

Rhoddodd y Pennaeth Diogelu Corfforaethol (DC) drosolwg o'r adroddiad.

Gofynnwyd y cwestiynau canlynol:

- Gofynnodd y Pwyllgor am ddiagram sgematig o'r strwythur diogelu i gynorthwyo hygyrchedd yr adroddiad. Cytunodd y Pennaeth DC i wneud hyn.
- Teimlai'r Pwyllgor fod angen rhagor o eglurhad ar y tablau ar dudalen 18 yn ymwneud â VAWDASV mewnol a data hyfforddiant penodol ychwanegol. Cytunodd y Pennaeth DC i wneud hyn.

- Holodd y Pwyllgor a oedd presenoldeb hyfforddiant ar dudalen 18 yn cynnwys gweithwyr Cyngor Dinas Casnewydd (CDC) yn unig. Cadarnhaodd y Pennaeth DC ei fod, a bod yr hyfforddiant hwn yn anstatudol. Roedd y Pwyllgor yn fodlon â chwmpas yr hyfforddiant ychwanegol a gynigir. Tynnodd y Pennaeth DC sylw at y gwahaniaeth rhwng hyfforddiant newydd-ddyfodiaid a hyfforddiant gloywi i weithwyr gofal cymdeithasol sefydledig. Holodd y Pwyllgor pwy oedd yn gyfrifol am ddarparu'r hyfforddiant. Cadarnhaodd y Pennaeth DC mai CDC oedd hwn. Gofynnodd y Pwyllgor a oedd cynlluniau ar gyfer hyfforddiant yn y dyfodol a chadarnhaodd y Pennaeth Gwasanaethau Oedolion (GO) fod cynllun i ddyfeisio hyfforddiant yn y dyfodol. Tynnodd yr Aelod Cabinet dros Wasanaethau Cymdeithasol – Gwasanaethau Plant sylw at gyfrifoldeb Aelodau Etholedig i fynychu hyfforddiant diogelu er mwyn arwain drwy esiampl.

- Holodd y Pwyllgor effeithiolrwydd e-ddysgu a'r amrywio yn y niferoedd sy'n ymgymryd â hyfforddiant diogelu rhwng meysydd gwasanaeth. Nododd Pennaeth DC fod hyfforddiant y Gwasanaethau Cymdeithasol ar ddiogelu ar lefel uwch na'r e-ddysgu gorfodol y mae'n ofynnol i holl staff CDC ei gwblhau. Roedd hyn yn golygu ei bod yn anoddach sicrhau bod staff Gwasanaethau Cymdeithasol yn cwblhau'r hyfforddiant gorfodol oherwydd eu llwyth gwaith prysur. Nododd Aelodau Cabinet dros Wasanaethau Cymdeithasol fod gweithwyr gofal cymdeithasol proffesiynol yn gwneud hyfforddiant proffesiynol parhaus. Teimlai'r Pwyllgor y gellid cyflwyno hyn yn well yn yr adroddiad a gofynnodd am wahanu data ar gyfer gweithwyr gofal cymdeithasol proffesiynol a staff corfforaethol.

- Holodd y Pwyllgor pa hyfforddiant a chymorth yr oedd Personau Diogelu Dynodedig (PDD) wedi'i dderbyn gan nad oedd hyn yn yr adroddiad. Cadarnhaodd y Pennaeth GO fod cyfarfodydd rheolaidd yn cael eu cynnal ar gyfer Pencampwyr Diogelu, a oedd yn gweithredu fel fforwm i godi pryderon neu ofyn am ragor o hyfforddiant neu gymorth. Argymhellodd y Pwyllgor y dylid cynnwys adran sy'n tynnu sylw at PDD mewn adroddiadau yn y dyfodol.

- Nododd y Pwyllgor nad oedd cyd-destun i'r canrannau cwblhau hyfforddiant ar dudalen 17 a gofynnodd i hyn gael ei gynnwys mewn adroddiadau yn y dyfodol. Nododd y Pennaeth DC fod yr adroddiad wedi casglu ymatebion a gafwyd ynghylch hygyrchedd e-ddysgu ar draws meysydd gwasanaeth ond cytunodd y byddai hyn yn cael ei gyflwyno'n wahanol mewn adroddiadau yn y dyfodol. Tynnodd yr Aelod Cabinet dros Wasanaethau Cymdeithasol – Gwasanaethau Plant sylw at y ffaith y cafwyd trafodaethau rhwng rhanbarthau/portffolios, ac y dylid gwella cyflwyniad data mewn adroddiadau yn y dyfodol o ganlyniad i hynny.

- Roedd y Pwyllgor yn pryderu ynghylch data hyfforddi'r Aelodau Etholedig ac yn holi a oedd cofrestr yn bodoli. Cadarnhaodd y Pennaeth DC fodolaeth cofrestr a nododd fod CLILC yn dweud ar hyn o bryd nad oedd diogelu yn orfodol i'r Aelodau ond ei fod yn adolygu'r ymateb hwnnw ochr yn ochr â Gofal Cymdeithasol Cymru. Nodwyd y byddai'n haws casglu data wrth gyflwyno safonau hyfforddi cenedlaethol. Tynnodd yr Aelod Cabinet dros Wasanaethau Cymdeithasol – Gwasanaethau Plant sylw at y ffaith y gallai Aelodau nad oeddent wedi gallu cwblhau hyfforddiant diogelu mewn sesiynau wedi'u trefnu ei gwblhau mewn sesiynau dal i fyny.

- Canmolodd y Pwyllgor y gwaith a wnaed ar ddiogelu wrth bontio ymhlith y rhai sy'n gadael gofal.

- Holodd y Pwyllgor pa gyfle oedd gan ddefnyddwyr gwasanaeth i roi adborth. Tynnodd y Pennaeth DC at y ffaith bod llawer iawn o ddata a dim ond y mwyaf perthnasol a ddefnyddiwyd, ond gellid gwella hyn mewn adroddiadau yn y dyfodol. Fe wnaethon nhw gadarnhau y gofynnwyd i rieni am adborth ar gyfarfodydd ac ati.

- Teimlai'r Pwyllgor y dylid rhoi tystiolaeth fwy trylwyr o Safon 2. Nododd y Pennaeth DC fod hyn wedi'i lunio o ffurflenni hunanasesu o feysydd gwasanaeth ond nododd y gellid ei wella mewn adroddiadau yn y dyfodol.

- Cytunodd y Pwyllgor y dylid cynnwys data hyfforddiant chwythu'r chwiban mewn adroddiadau yn y dyfodol.

- Holodd y Pwyllgor am y cynnydd mewn atgyfeiriadau plant. Tynnodd y Pennaeth DC sylw at y cynnydd mewn ymwybyddiaeth a'r gostyngiad mewn amodau cyffredinol i drigolion fel ffactorau ond tynnodd sylw at y ffaith nad oedd pob atgyfeiriad yn arwain at weithredu. Nododd y Pennaeth GO y pwysau ar y Gwasanaethau Plant, yn benodol ar y Gofrestr Amddiffyn Plant.

- Nododd y Pwyllgor natur gyson yr atgyfeiriadau amddiffyn oedolion. Nododd y Pennaeth GO y gwahaniaeth mewn amgylchiadau rhwng materion amddiffyn oedolion a materion amddiffyn plant.

- Holodd y Pwyllgor am sylwadau yn yr adroddiad ynghylch goblygiadau adnoddau gweithdrefnau diogelu. Eglurodd Cyfarwyddwr Strategol y Gwasanaethau Cymdeithasol fod y rhain yn ymwneud yn benodol â'r Tîm Diogelu.

Casgliadau:

Argymhellodd y Pwyllgor y dylid:

- Creu diagram a'i gynnwys i ddangos y strwythur diogelu cymhleth yn CDC, gan gynnwys partneriaid ehangach. Gofynnwyd am rannu hyn â'r Pwyllgor cyn gynted ag y gall Swyddogion.

- Egluro'r tablau ar dudalen 18 a dosbarthu copi o'r tabl hyfforddiant VAWDASV wedi'i ddiweddaru i'r Pwyllgor cyn gynted ag y gall Swyddogion.

- Gwahanu data hyfforddiant gorfodol ar gyfer staff Corfforaethol a gweithwyr gofal cymdeithasol proffesiynol yn yr adroddiad.

- Cynnwys data datblygiad proffesiynol parhaus a hyfforddiant ar gyfer gweithwyr proffesiynol gofal cymdeithasol.

- Cynnwys adran sy'n tynnu sylw at hyfforddiant a chefnogaeth Person Diogelu Dynodedig mewn adroddiadau yn y dyfodol.

- Rhoi cyd-destun i'r canrannau mewn adroddiadau yn y dyfodol.

- Cynnwys data hyfforddiant chwythu'r chwiban mewn adroddiadau yn y dyfodol.

- Dangos tystiolaeth fwy trylwyr o waith yn Safon 2.

- Nodi bod "goblygiad adnoddau" yn cyfeirio at y tîm diogelu ac nid CDC yn ei gyfanrwydd yn yr adroddiad.

4 **Adroddiad Cynghorydd Craffu**

a) Camau Gweithredu

Nododd yr Ymgynghorydd Craffu nad oedd unrhyw gamau gweithredu. Nododd yr Ymgynghorydd Craffu y camau gweithredu o'r cyfarfod hwn a chytunodd i anfon yr adroddiad Recriwtio a Chadw i'r Pwyllgor.

Daeth y cyfarfod I ben am 11.14 am